## Sunday 19th October 2025
## + The 18th Sunday after Trinity

### The collect of the day

Almighty and everlasting God, increase in us your gift of faith that, forsaking what lies behind and reaching out to that which is before, we may run the way of your commandments and win the crown of everlasting joy; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and forever. AMEN

### The reading from Genesis
(32.22-31)

At night Jacob got up and took his two wives, his two maids, and his eleven children, and crossed the ford of the Jabbok. He took them and sent them across the stream, and likewise everything that he had.

Jacob was left alone; and a man wrestled with him until daybreak. When the man saw that he did not prevail against Jacob, he struck him on the hip socket; and Jacob's hip was put out of joint as he wrestled with him. Then he said, 'Let me go, for the day is breaking.'

But Jacob said, 'I will not let you go, unless you bless me.'

So he said to him, 'What is your name?'

And he said, 'Jacob.'

Then the man said, 'You shall no longer be called Jacob, but Israel, for you have striven with God and with humans, and have prevailed.'

Then Jacob asked him, 'Please tell me your name.'

But he said, 'Why is it that you ask my name?' And there he blessed him.

So Jacob called the place Peniel, saying, 'For I have seen God face to face, and yet my life is preserved.' The sun rose upon him as he passed Penuel, limping because of his hip.

### The Psalm
(121)

I lift up my eyes / to the / hills: from / where is my / help to / come? My help comes / from the / Lord: the / maker of / heaven and / earth.

He will not suffer your / foot to / stumble: he who watches / over you / will not / sleep. Behold, he who keeps watch / over / Israel: shall / neither / slumber nor / sleep.

The Lord himself / watches / over you: the Lord is your shade / at your / right / hand, So that the sun shall not / strike you by / day: nei/ther the / moon by / night.

The Lord shall keep you / from all / evil: it is / he who shall / keep your / soul. The Lord shall keep watch over your going out * and your / coming / in: from this time / forth for / ever/more.

### The reading from 2 Timothy
(3.14 – 4.5)

Continue in what you have learned and firmly believed, knowing from whom you learned it, and how from childhood you have known the sacred writings that are able to instruct you for salvation through faith in Christ Jesus. All scripture is inspired by God and is useful for teaching, for reproof, for correction, and for training in righteousness, so that everyone who belongs to God may be proficient, equipped for every good work.

In the presence of God and of Christ Jesus, who is to judge the living and the dead, and in view of his appearing and his kingdom, I solemnly urge you: proclaim the message; be persistent whether the time is favourable or unfavourable; convince, rebuke, and encourage, with the utmost patience in teaching.

For the time is coming when people will not put up with sound doctrine, but having itching ears, they will accumulate for themselves teachers to suit their own desires, and will turn away from listening to the truth and wander away to myths. As for you, always be sober, endure suffering, do the work of an evangelist, carry out your ministry fully.

### The reading from the Gospel according to Saint Luke
(18.1-8)

Jesus told his disciples parable about their need to pray always and not to lose heart. He said, 'In a certain city there was a judge who neither feared God nor had respect for people. In that city there was a widow who kept coming to him and saying, "Grant me justice against my opponent." For a while he refused; but later he said to himself, "Though I have no fear of God and no respect for anyone, yet because this widow keeps bothering me, I will grant her justice, so that she may not wear me out by continually coming."'

And the Lord said, 'Listen to what the unjust judge says. And will not God grant justice to his chosen ones who cry to him day and night? Will he delay long in helping them? I tell you, he will quickly grant justice to them. And yet, when the Son of Man comes, will he find faith on earth?'

### The collect after communion

All praise and thanks, O Christ, for this sacred banquet, in which by faith we receive you, the memory of your passion is renewed, our lives are filled with grace, and a pledge of future glory given, to feast at that table where you reign with all your saints for ever. AMEN



Text from the Church in Wales – Word of the Lord 2011 copyright © Church in Wales Publications 2011. Collects and Post Communion Prayers from the book New Calendar and the Collects. Copyright © The Representative Body of the Church in Wales 2003 ISBN – 1853115495. Quotations and Psalms from The New Revised Standard Version (Anglicized Edition), copyright 1989, 1995 by the Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used as permitted.

## Dydd Sul 19eg Hydref 2025
## + 18fed Sul wedi'r Drindod

## Colect y dydd

Hollalluog a thragwyddol Dduw, cynydda ynom dy rodd o ffydd fel, gan adael yr hyn a aeth heibio ac ymestyn at yr hyn sydd o'n blaen, y bydd inni redeg ar hyd ffordd dy orchmynion ac ennill coron llawenydd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

## Darlleniad o Genesis
(32.22-31)

Yn ystod y noson honno cododd Jacob a chymryd ei ddwy wraig, ei ddwy forwyn a'i un mab ar ddeg, a chroesi rhyd Jabboc. Wedi iddo'u cymryd a'u hanfon dros yr afon, anfonodd ei eiddo drosodd hefyd.

Gadawyd Jacob ei hunan, ac ymgodymodd gŵr ag ef hyd doriad y wawr. Pan welodd y gŵr nad oedd yn cael y trechaf arno, trawodd wasg ei glun, a datgysylltwyd clun Jacob wrth iddo ymgodymu ag ef. Yna dywedodd y gŵr, "Gollwng fi, oherwydd y mae'n gwawrio."

Ond atebodd yntau, "Ni'th ollyngaf heb iti fy mendithio."

"Beth yw d'enw?" meddai ef.

Ac atebodd yntau, "Jacob."

Yna dywedodd, "Ni'th elwir Jacob mwyach, ond Israel, oherwydd yr wyt wedi ymdrechu â Duw a dynion, ac wedi gorchfygu."

A gofynnodd Jacob iddo, "Dywed imi dy enw."

Ond dywedodd yntau, "Pam yr wyt yn gofyn fy enw?" A bendithiodd ef yno.

Felly enwodd Jacob y lle Penuel, a dweud, "Gwelais Dduw wyneb yn wyneb, ond arbedwyd fy mywyd." Cododd yr haul arno fel yr oedd yn mynd heibio i Penuel, ac yr oedd yn gloff o'i glun.

## Y Salm
(121)

Codaf fy llygaid tua'r mynyddoedd; o ble y daw cymorth i mi? Daw fy nghymorth oddi wrth yr Arglwydd, creawdwr nefoedd a daear.

Nid yw'n gadael i'th droed lithro, ac nid yw dy geidwad yn cysgu. Nid yw ceidwad Israel yn cysgu nac yn huno.

Yr Arglwydd yw dy geidwad, yr Arglwydd yw dy gysgod ar dy ddeheulaw; ni fydd yr haul yn dy daro yn y dydd, na'r lleuad yn y nos.

Bydd yr Arglwydd yn dy gadw rhag pob drwg, bydd yn cadw dy einioes. Bydd yr Arglwydd yn gwylio dy fynd a'th ddod yn awr a hyd byth.

## Darlleniad o 2 Timotheus
(3.14 – 4.5)

Ond glŷn di wrth y pethau a ddysgaist, ac y cefaist dy argyhoeddi ganddynt. Fe wyddost gan bwy y dysgaist hwy, a'th fod er yn blentyn yn gyfarwydd â'r Ysgrythurau sanctaidd, sydd yn abl i'th wneud yn ddoeth a'th ddwyn i iachawdwriaeth trwy ffydd yng Nghrist Iesu. Y mae pob Ysgrythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw ac yn fuddiol i hyfforddi, a cheryddu, a chywiro, a disgyblu mewn cyfiawnder. Felly y darperir pob un sy'n perthyn i Dduw â chyflawn ddarpariaeth ar gyfer pob math o weithredoedd da.

Yng ngŵydd Duw a Christ Iesu, yr hwn sydd i farnu'r byw a'r meirw, yr wyf yn dy rybuddio ar gyfrif ei ymddangosiad a'i deyrnas ef: pregetha'r gair; bydd yn barod bob amser, boed yn gyfleus neu'n anghyfleus; argyhoedda; cerydda; calonoga; a hyn ag amynedd diball wrth hyfforddi.

Oherwydd fe ddaw amser pan na fydd pobl yn goddef athrawiaeth iach ond yn dilyn eu chwantau eu hunain, ac yn crynhoi o'u cwmpas liaws o athrawon i oglais eu clustiau, gan droi oddi wrth y gwirionedd i wrando ar chwedlau. Ond yn hyn oll cadw di ddisgyblaeth arnat dy hun: goddef galedi; gwna waith efengylwr; cyflawna holl ofynion dy weinidogaeth.


## Gwrandewch Efengyl Crist
## yn ôl Sant Luc
(18.1-8)

Dywedodd ddameg wrthynt i ddangos fod yn rhaid iddynt weddïo bob amser yn ddiflino: "Mewn rhyw dref yr oedd barnwr. Nid oedd yn ofni Duw nac yn parchu eraill. Yn y dref honno yr oedd hefyd wraig weddw a fyddai'n mynd ger ei fron ac yn dweud, 'Rho imi ddedfryd gyfiawn yn erbyn fy ngwrthwynebwr.' Am hir amser daliodd i'w gwrthod, ond yn y diwedd meddai wrtho'i hun, 'Er nad wyf yn ofni Duw nac yn parchu eraill, eto, am fod y wraig weddw yma yn fy mhoeni o hyd, fe roddaf iddi'r ddedfryd, rhag iddi ddal i ddod a'm plagio i farwolaeth.'"

Ac meddai'r Arglwydd, "Clywch eiriau'r barnwr anghyfiawn. A fydd Duw yn gwrthod cyfiawnder i'w etholedigion, sy'n galw'n daer arno ddydd a nos? A fydd ef yn oedi yn eu hachos hwy? Rwy'n dweud wrthych y rhydd ef gyfiawnder iddynt yn ebrwydd. Ond eto, pan ddaw Mab y Dyn, a gaiff ef ffydd ar y ddaear?"

## Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Pob mawl a diolch, O Grist, am y wledd gysegredig hon, yr ydym drwy ffydd yn dy dderbyn di ynddi, adnewyddir y cof am dy ddioddefaint, llenwir ein bywydau â gras, a rhoddir inni ernes o'r gogoniant sydd i ddod. Dwg ni, o'r diwedd, i wledda wrth y bwrdd lle rwyt yn teyrnasu gyda'th holl saint am byth. AMEN



*Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru.* Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddïau Ôl-Gymun o'r llyfr *Y Calendr Newydd a'r Colectau* Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmau trwy ganiatâd o'r *Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004* Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.